

Swper Bethlehem

Cafodd criw Bwrlwm Capel Bethlehem eu swper diwedd tymor yn y Clwb Golff yng Nghaernarfon echnos. Diolch am y trefniadau, a diolch i bawb am eu cefnogaeth ar hyd y flwyddyn.

Cwpan CIC

Nos Fercher diwethaf, roedd tim pêl droed 5-yr-ochr yn cynrychioli CIC Llanberis yn nhwrnamaint Cwpan CIC yn Abererch. Trefnwyd y cyfan ar ran Trobwynt gan Andrew, a chafwyd noson o gystadlu brwd eleni eto. Diolch i Dylan a Rachel Davies am eu help i fynd â'r hogiau yno. Enillwyd y Cwpan gan dim CIC Llanrug.

Y mis nesaf - Talybont

Gorffennaf 24

2.00 p.m. - Y Parchg Gerallt Ll Evans

Gorffennaf 31

2.00 p.m. - Oedfa

Mis Awst

Dim oedfaon yn ystod y mis

Y mis nesaf - Deiniolen

Gorffennaf 24

5.00 p.m. - Miss Nerys Jackson

Gorffennaf 31

5.00 p.m. - Y Parchg Huw Pritchard

Awst 7

Dim Oedfa

Awst 14

Dim oedfa.

Awst 21

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Carmel

Cynhelir Pwyllgor Ymddiriedolwyr yn y festri am 7.00 o'r gloch nos yfory, nos Lun, Gorffennaf 18.

Dim Gronyn

Dyma rifyn olaf *Gronyn* am y tro. Daw'r rhifyn nesaf ddydd Sul, Awst 21.

Y mis nesaf - Llanllechid

Gorffennaf 24

5.00 p.m. - Mr Andrew Settatre

Gorffennaf 31

5.00 p.m. - Oedfa

Awst 7

10.00 a.m. a 5.00 p.m.
Uno yn Jerusalem, Bethesda

Awst 14

10.00 a.m. a 5.00 p.m.
Uno yn Jerusalem, Bethesda

Awst 21

10.00 a.m. a 5.00 p.m.
Uno yn Jerusalem, Bethesda

Y mis nesaf - Llanberis

Gorffennaf 24

10.00 a.m. - Mr Gwilym Charles Williams

Gorffennaf 31

10.00 a.m. - Mr Norman Closs Parry
5.00 p.m. - Y Parchg Geraint Roberts

Awst 7

10.00 a.m. - Y Parchg Olwen Williams

Awst 14

10.00 a.m. - Y Parchg Cath Williams

Awst 21

10.00 a.m. - Mr John H Hughes



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 692: Dydd Sul, 17 Gorffennaf, 2016

Llanast mawr arall

Mae braidd yn gynnar i wneud ffilm am Lywodraeth Theresa May. Ond os byth y gwneir un, mae'n bosibl mai rhywbeth fel *'Laurel and Hardy a'r Three Musketeers'* fydd y teitl.

Un o benderfyniadau cyntaf y Prif Weinidog newydd oedd penodi'r tri *musketeer* i swyddi allweddol: Boris Johnson yn Ysgrifennydd Tramor; David Davis i arwain y trafodaethau ynghylch gadael Ewrop; a Liam Fox i ofalu am Fasnach Dramor. Bu'r tri'n arwain yr ymgyrch dros adael yr Undeb Ewropeaidd. Roedd Mrs May o blaid aros yn Ewrop, ond ers y Refferendwm mae wedi parchu'r penderfyniad a wnaed. Ac fe gadarnhaodd hynny nos Fercher trwy ddweud mai 'Brexit yw Brexit'. Fel gwleidydd profiadol, mae'n deall yn iawn mor gymhleth fydd y trafodaethau y bydd rhaid eu cael cyn gadael. Ac fel gwleidydd da, mae wedi gosod y cyfrifoldeb am y rhain, ynghyd â'r cyfrifoldeb mawr am ehangu cyfleoedd i gwmnïau Prydeinig fasnachu ym mhob cwr o'r byd, ar y bobl oedd o blaid gadael.

Beth bynnag ei chymhellion dros wneud y penodiadau hyn, mae Mrs May yn amlwg wedi gosod her i'r tri *Brexiters*. Nhw, wedi'r cwbl, fu'n galw am y newid. Bron nad yw hi'n ategu geiriau cyson Hardy wrth ei gyfaill Laurel, 'Well, here's another nice mess you've gotten me into'. Nhw aeth â ni i'r twll hwn, mi gawn nhw ddod â ni allan ohono hefyd! Mae Mrs May yn glyfar. Os na fydd y trafodaethau'n

llwyddo, os na cheir telerau ffafriol, os na chwblheir *Brexit* ac os na ddaw ffyniant economaidd, ar y tri *musketeer* y bydd y bai. Os llwyddir, gall ei Llywodraeth hi hawlio'r clod.

Nid y byd gwleidyddol Prydeinig yw'r unig beth sydd mewn llanast. Gyda'i ryfeloedd a'i ragrith, ei anfoesoldeb a'i anghyfiawnder, ei derfysgaeth a'i drais, mae'r byd mewn llanast. Er na sylweddolwn hynny, ac er nad ydym eisiau cydnabod hynny, y mae ein bywydau ninnau hefyd mewn llanast oherwydd ein pechod yn erbyn Duw. Ond yn wahanol i'r hen Oliver Hardy, does gennym ni'r un Stan Laurel o gyfaill y gallwn ei feio am hynny. Arnom ni ein hunain y mae'r bai am y llanast yr ydym ynddo. Mae'n wir fod ym mhob un ohonom duedd naturiol i bechu sy'n golygu na allwn fyw yn berffaith, ond yr ydym hefyd yn dewis gwneud pethau sy'n anghywir yng ngolwg Duw. Rydym mewn twll o'n gwneuthuriad ein hunain.

Rhyfeddod Efenigyl Iesu Grist yw ei bod yn dangos nad yw Duw wedi'n gadael i ddod o'r twll ar ein pen ein hunain. Nid yw'n ein herio i ddod o'r llanast yn ein nerth ein hunain; y mae wedi anfon ei Fab ei hun i ddelio â'r llanast ac i'n codi o'r twll yr ydym wedi ei gloddio. Ac yn wahanol i'r *Brexiters* druan, sydd wedi eu herio i ddatrys eu llanast eu hunain, mae gan Gristnogion Waredwr sy'n fwy nag abl i'w tynnu o'r picl.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm

'Y mae fy llygaid yn wastad
ar yr ARGLWYDD, oherwydd
y mae'n rhyddhau fy nhraed
o'r rhwyd. Tro ataf, a bydd drugarog
wrthyf, oherwydd unig ac anghenus wyf
fi. Esmwytha gyfyngder fy nghalon, a
dwg fi allan o'm hadfyd. Edrych ar fy
nhrueni a'm gofid, a maddau fy holl
bechodau' (Salm 25:15-18).



BEIBL BYW

Heddiw

Bydd Cyfarfod Gweddi yn Capel Coch
am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am
5.00 o'r gloch gan y Parch Dewi Morris.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 3.00 o'r
gloch gan y Parchg R O Jones, Gaerwen.

Gwasanaethir Llanllechid am 5.00 o'r
gloch heno gan Miss Nerys Jackson,
Caernarfon. Diolch am ei gwasanaeth.
Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o'r
gloch gan y Parchg William Davies, Y
Bala. Croeso a diolch iddo yntau.

Nid oes oedfa yn Nant Peris heddiw.

Cofion

Dymunwn yn dda i bawb sydd heb fod
yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Gwyliau Blynyddol

Bydd y Gweinidog yn cychwyn ei fis o
wyliau ddydd Mercher, Gorffennaf 21.
Cysylltwch â swyddogion eich eglwys os
bydd angen help arnoch yn ystod y mis.

Angladd

Bu farw Mrs Eileen Roberts, 83 Maes
Padarn, Llanberis, un o aelodau mwyaf
ffyddlon yr eglwys yn Capel Coch,
ddydd Sadwrn, Gorffennaf 9, yn 86
mlwydd oed. Roedd ei hangladd yn
Capel Coch ac Amlosgfa Bangor ddydd
Gwener, Gorffennaf 15 dan arweiniad y
Gweinidog. Mrs Bethan Holding oedd yr
organydd.

Ychydig dros chwe mis sydd ers i ni golli
ei phriod, Mr Thomas John Roberts,
ddydd olaf 2015. Ar y pryd, ni fyddai'r
un ohonom wedi dychmygu y byddai raid
ffarwelio ag Eileen hefyd mor fuan
wedyn. Cyn diwedd Ionawr, roedd hi, yn
annisgwyl iawn, wedi ei tharo'n wael, a
bu yn Ysbyty Gwynedd am gyfnod cyn
dod adref a chael gofal ardderchog gan ei
theulu. Parhaodd yn siriol er gwaetha'r
gwaeledd a'r gwendid.

Roedd yn wraig arbennig o annwyl, yn
dawel a hwyliog, yn foneddigaidd a
chywir. Bu'n weithgar iawn yn Capel
Coch ers iddi ymgartrefu yn Llanberis.
Bu'n cadw un o lyfrau cyfrifon yr eglwys
am flynyddoedd. Roedd yn ystyried y
gwaith hwn yn bwysig ac yn cymryd ei
chyfrifoldeb o ddifrif. Roedd yn
ffyddlon i'r oedfaon, ac anaml iawn y
byddai'n colli oedfa nos Sul, waeth beth
fyddai'r tywydd na'r galwadau eraill a
fyddai arni.

Roedd yn wraig a mam, nain a hen nain,
chwaer a modryb arbennig i'w theulu.
Bu'n gefn i'r teulu cyfan, ac roedd wrth

ei bodd yn magu ac yn gofalu am ei
hwyron a'i hwyresau. Rhoddai les ei
phlant a'u teuluoedd yn gyntaf bob amser
a bu'n ofalus iawn o'i phriod ar hyd eu
bywyd priodasol, ac yr oedd yn falch ei
bod wedi medru rhoi'r gofal hwnnw i
Twm John hyd y diwedd.

Cydymdeimlwn â'i phlant Reg, Ronnie a
Iona, a'i chwaer Rose a'i brawd Bert, ac
â'i hwyron a'i hwyresau i gyd yn eu
colled a'u hiraeth. Mae colli Twm John
ac Eileen o fewn amser mor fyr yn ergyd
fawr i bawb ohonom.

Bedydd

Fore Sul diwethaf, cafwyd oedfa fedydd
yn Capel Coch dan arweiniad y
Gweinidog. Bedyddiwyd Awel Geraint
McQuire Jones, merch Gwenno Medi
Morris a Rhys McQuire Jones, Cae
Cerrig, Deiniolen. Dymunwn bob
bendith i'r teulu, ac edrychwn ymlaen fel
eglwys at gael rhan ym magwra
ysbrydol Awel yn y man.

Croeso

Estynwyd croeso aelodau eglwys
Chwilog a'r cylch i'r oedfa yn Capel
Coch fore Sul diwethaf. Roedd yn braf
eu gweld a chael eu cwmni yn y
gwasanaeth a thros baned wedyn. Wrth
eu croesawu, diolchodd Mrs Falmai
Pritchard i weinidog yr Ofalaeth, y
Parchg Aled Davies, am ei holl waith yn
cyhoeddi llyfrau a deunydd o bob math at
waith yr Ysgolion Sul. Ers blynyddoedd,
Aled fu'n arwain Cyngor Ysgolion Sul
Cymru a Chyhoeddiadau'r Gair sydd
wedi cyhoeddi cannoedd o lyfrau
Crsitnogol ar gyfer plant, ieuenticid ac
oedolion.

Diolch i bawb a fu'n paratoi ac yn
gweini'r lluniaeth ar gyfer yr ymwelwyr.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mrs Helen Morris,
Oakfield, Ffordd Capel Coch, Llanberis o
glywed am farwolaeth ei brawd, Mr Glyn
Roberts, Llanddaniel. Cynhaliwyd ei
angladd ddydd Iau diwethaf, ac anfonwn
ein cofion gorau at ei briod, Nora, a'r
teulu cyfan yn eu colled.

Ffair Haf

Cynhelir Ffair Haf yn Festri Capel Coch
er budd Cronfa Adnoddau'r Capel ddydd
Mercher, Gorffennaf 20, am 2.00 o'r
gloch. Y pris mynediad fydd £1.00 (a
chewch baned a bisged fel arfer am y pris
hwnnw).

Oedfa Sul y Maer

Aeth nifer o aelodau Carmel, Llanllechid
i wasanaeth Sul y Maer ym Miwmares
ddydd Sul diwethaf gan mai un o aelodau
Carmel, Mrs Margaret Gwen Jones, oedd
yn cael ei sefydlu yn Faer y dref.
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da.

CIC

Aeth criw CIC Llanberis a Llanrug i
Fferm Hendy, Caernarfon echnos. Hon
oedd noson olaf y flwyddyn ysgol, a di-
wedd hefyd i dymor CIC nes y byddwn
yn ail ddechrau ym mis Medi.

Cafwyd taith o amgylch y fferm mewn
trelar (diogel) a gemau ar un o'r caeau
cyn i bawb fynd at y tŷ i gael barbeciw
yn yr ardd. Diolch i Andrew am drefnu,
ac i Aled ac Eilir Jones am eu croeso ac
am baratoi ar ein cyfer. Roedd Andrew
wedi gofyn i Aled ddweud gair o brofiad
wrth y bobl ifanc, ac fe wnaeth hynny
mewn ffordd gynnes a syml, gan annog
pawb i fod o ddifrif efo'r Iesu oherwydd
y bywyd arbennig y mae Iesu yn ei
gynnig i ni. Roedd yn noson arbennig
iawn, ac rwy'n siwr fod pawb wedi
mwynhau eu hunain yn fawr.